

Atal damweiniau i blant ar ffermydd



Mae hwn yn fersiwn gwe-gyfeillgar o daflen INDG472(rev4), a adolygwyd 06/13

Cyflwyniad

Mae gan amaethyddiaeth yn o'r cyfraddau anafiadau marwol uchaf mewn unrhyw ddiwydiant ym Mhrydain Fawr, ond dyma'r unig ddiwydiant risg uchel ble mae'n rhaid delio â phresenoldeb cyson plant. Mae ffermydd yn gartrefi yn ogystal â bod yn weithfannau, ac fe all ymwelwyr, gan gynnwys plant, fod yn bresennol ar ffermydd.

Mae plant a phobl ifanc hyd at 18 oed yn cael eu lladd ac anafu yn rheolaidd ar ffermydd, naill ai am eu bod yn gweithio ar y fferm neu am eu bod yn chwarae yno.

Ychydig iawn o amrywiaeth sydd yn sut mae plant yn cael eu lladd o flwyddyn i flwyddyn. Yr achos mwyaf cyffredin o farwolaeth ac anaf sylweddol yn y ddegawd ddiwethaf oedd:

- syrthio o gerbydau;
- cael eu taro gan gerbydau neu wrthrychau sy'n symud;
- cyswllt gyda pheirianwaith;
- gyrru cerbydau;
- syrthio o uchder;
- boddi a mygu;
- gwenwyno;
- tân;
- cyswllt gydag anifeiliaid.

Roedd y plant a fu farw:

- yn cael eu cario fel teithwyr ar offer a pheiriannau amaethyddol;
- ddim dan oruchwyliaeth briodol gan oedolyn;
- yn gweithio/helpu ar y fferm;
- yn chwarae heb oruchwyliaeth; neu
- yn tresmasu.

Ar gyfer y prif feysydd risg, mae'r daflen hon:

- yn darparu arweiniad ar sut i leihau'r risg o anaf i blant dan 13 oed a phlant hŷn sy'n iau na'r isafswm oedran gadael ysgol (fel arfer 16);
- yn nodi tasgau a gweithredoedd sy'n rhy beryglus i blant a phobl ifanc eu gwneud ac yn cynnwys enghreifftiau o fywyd go iawn – yn aml gyda'r rhiant neu nain neu daid yn lladd y plentyn.

Plant dan 13 oed

Cofiwch, er bod rhieni yn gyfrifol am atal eu plant rhag crwydro neu dresmasu ar ardaloedd ble gallant fod mewn perygl, mae pob oedolyn sy'n gweithio mewn amaethyddiaeth – cyflogwyr, cyflogeion, contractwyr, neu weithwyr eraill sy'n ymweld – fod yn gyfrifol am ddiogelwch plant.

Nodwch beth allai achosi risg i'ch plant

Roedd bachgen 3 oed yn chwarae ar fuarth y fferm. Roedd giât fetel wedi yn pwysu yn erbyn gweithdy yn aros i osod colfachau arni. Dringodd y bachgen i fyny grisiau'r giât ac fe syrthiodd a'i wasgu.

Gallwch fethu a gweld y risgiau sydd o flaen eich llygaid pob dydd. Efallai y bydd risiau i blant nad ydynt yn risgiau i oedolion, fel hen giât yn pwysu yn erbyn wal. Wrth benderfynu beth allai achosi niwed i blant, efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi ofyn i gynrychiolydd diogelwch, cyflogai, cyfaill neu gymydog gymryd golwg ar eich fferm - mae'n dynodi pa beryglon a risgiau fydd pâr o lygaid ffres yn weld. Cofiwch mai'ch dyletswydd chi yw rheoli unrhyw beryglon a risgiau a nodwyd.

Dylech hefyd edrych ar yr holl beryglon sefydlog yn eich buarth, adeiladau fferm a storfeydd. Bydd hyn yn cynnwys, er enghraifft, giatiau crog a rhydd, ysgolion sefydlog a symudol, baddonau dip defaid, lagwnau slyri, seilos graen, storfeydd porthiant, offer yn gorffwys, offer sy'n cael ei drin, gwasgfa gwartheg, ardaloedd storio llofftidd, clampiau silwair, beudai, corau gwartheg a thai gwydr. Cofiwch hefyd fod nifer o ddamweiniau i blant ar ffermydd yn digwydd pan fydd cerbydau'n symud.

Yna ewch trwy'ch blwyddyn waith i nodi'r amrywiaeth o beryglon allai godi, e.e. mae silweirio, halio graen a gweithgareddau brig fferm tebyg yn aml yn cyd-fynd â'r gwyliau ysgol. I gael canllaw syml ac ymarferol ar asesu'r risgiau ar eich fferm a beth sydd angen i chi wneud i'w rheoli, ewch i www.hse.gov.uk/agriculture/topics/riskassessment.htm.

All plant gyflawni tasgau syml ar y fferm?

Mae casglu wyau, er enghraifft, yn aml yn cael ei ystyried i fod yn weithgaredd diogel a hawdd i blant wneud eu hunain, ond efallai fod peryglon nad ydych wedi eu hystyried.

Bydd angen i chi ystyried beth sydd ynghlwm i'r dasg o hyd. Er enghraifft:

- Ble mae ieir yn cael nythu'n rhydd o amgylch y fferm, ble fydd angen i blant fynd i chwilio am wyau?
- A fydd angen iddynt ddringo rhywle gyda dwy law a dringo i lawr gydag un llaw?
- A fydd angen iddynt groesi ardaloedd gwaith ble mae cerbydau'n symud?
- A fydd angen iddynt fynd i mewn i ffaldau anifeiliaid?
- A yw plant iau wedi eu goruchwyllo'n ddigonol?

Roedd bachgen 2 oed yn bwydo ieir gyda'i fam, ond fe lithrodd i ffwrdd. Clywodd ei lais yn dod o'r cwt ieir ble roedd wedi mynd i gasglu wyau. Fe ddringodd ar y blychau dodwy a syrthiodd ar ei frest.

A ydych chi wedi meddwl am bopeth allai achosi niwed sylweddol?

Ystyriwch y pwyntiau canlynol:

- A oes plant yn byw ar neu'n agos at y fferm?
- Pa drefniadau allwch chi wneud ar gyfer gofalu am blant os nad yw'r rhieni neu warchodwyr ar gael, e.e. am eu bod yn y gweithio yn y caeau i ffwrdd o'u plant?
- Pa weithgareddau neu dasgau ar eich fferm allai greu risg iddynt?

- Pa offer ydych chi'n defnyddio, megis peiriannau? A yw'r gweithredwr yn gallu gweld yn glir o amgylch y peiriant neu o gab y gyrrwr? Allech chi weld plentyn bychan yn sefyll tu ôl i'ch cerbyd?
- Pa risgiau sydd yna o gynllun y gweithle, megis corneli dall neu lagwnau slyri?
- Pa ardaloedd ar y fferm allai fod yn arbennig o ddeniadol i blant, megis staciau byrnau neu ffaldau anifeiliaid?
- Beth yw'r risgiau o sylweddau peryglu megis bacteria a chemegau?
- Sut ydych chi'n trefnu a rheoli gweithgareddau gwaith, yn cynnwys oed a chyfrifoldeb gweithwyr eraill? Ydych chi'n defnyddio contractwyr, nad ydynt yn gyfarwydd â'r risgiau ar eich fferm?
- A yw plant yn ymweld trwy wahoddiad (e.e. i weld ffrindiau neu ar drip ysgol) neu heb wahoddiad (e.e. yn arfer hawliau cyfreithiol mynediad neu fel tresmaswyr)?

Cofiwch mai dim ond ymwybyddiaeth gyfyngedig fydd gan blant o risgiau ac y gallant fod yn anaeddfed yn gorfforol ac yn feddyliol.

Rheoli'r risgiau

A oes plant yn byw ar neu'n agos at y fferm?

Os oes:

- darparwch ardal chwarae wedi ei diogelu gan ffens gyda digon o weithgareddau i gadw plant yn brysur;
- cadwch blant i ffwrdd o weithgareddau ffermio a thraffig gwaith ble fo'n bosibl;
- sicrhewch fod pawb sy'n gweithio ar y fferm yn gwybod fod angen iddynt stopio gweithio ar unwaith os bydd plentyn heb oruchwyliaeth yn ymddangos yn annisgwyl yn yr ardal waith a mynd â'r plentyn i rywle diogel;
- os yw'r plant yn ddigon hen, rhowch wybod iddynt am y peryglon y dylent fod yn ymwybodol ohonynt a ble nad ydynt yn cael mynd;
- codwch arwyddion rhybudd mewn ardaloedd peryglus a sicrhau fod y plant yn gwybod beth maent yn golygu.

Os ydych chi'n defnyddio contractwyr sy'n anghyfarwydd â'ch gweithle:

- rhowch gyfarwyddiadau clir iddynt am stopio gweithio a gwneud yr ardal yn ddiogel os fydd pobl ifanc a phlant heb awdurdod yn dod i mewn i'r ardal waith;
- sicrhewch eich bod wedi cytuno ar ardaloedd gweithio gyda nhw a'r camau i gymryd i atal mynediad heb awdurdod gan blant;
- rhowch wybod iddynt beth i'w wneud i sicrhau fod plant yn cael eu dychwelyd yn ddiogel i reolaeth oedolyn priodol;
- ystyriwch unrhyw rwystrau ieithyddol neu ddiwylliannol wrth ddefnyddio gweithwyr mudol – efallai na fyddant yn ystyried fod presenoldeb plant yn risg.

Ydw i'n gallu mynd â fy mhlant i'r gwaith gyda mi?

Weithiau bydd yn anodd iawn i rieni drefnu gofal plant. Er y gallai fod yn ddeniadol, nid yw mynd â nhw gyda chi i'r gwaith yr ateb i'r broblem. Er enghraifft, mae'n anghyfreithlon i gario plant dan 13 oed mewn cabiau tractor, ond mae rhai rhieni yn dal i dorri'r gyfraith. Nid yw fyth yn ddiogel i gael plentyn yn y cab.

Bron pob blwyddyn, bydd gwaith fferm yn arwain at farwolaeth o leiaf un plentyn dan law ei riant ei hun neu aelod agos o'r teulu. Mae'r rhan fwyaf o blant dan bump sy'n cael eu lladd mewn damweiniau fferm gydag oedolyn ar y pryd. Mae'n anodd iawn goruchwyllo plant, yn arbennig plant bach, wrth wneud gwaith sy'n galw am ganolbwyntio.



Mam yn gyrru: Bu farw plentyn 2 oed wedi syrthio allan o ffenestr gefn tractor.

Dad yn gyrru: Roedd merch 4 oed wedi bod yn teithio yn y cab pan gyrhaeddodd ei mam y cae i fynd â hi adref. Wrth i'r ferch fynd i ymuno â'i mam, gyrrodd ei thad i ffwrdd a rhedeg drosti, gan ei lladd.

Taid yn gyrru: Syrthiodd plentyn 5 oed allan o ddrws y tractor ac fe aeth rholer drosto. Roedd gan y plentyn anafiadau critigol, ond fe oroesodd.

Chwaer fawr yn gyrru: Dringodd i lawr i drefnu da byw, gan adael yr allweddi yn y peiriant a'r injan yn rhedeg. Penderfynodd plentyn 3 oed oedd yn dal yn y cab ddringo i lawr hefyd a bu farw wedi maglu ei hun mewn siafft pŵer esgyn (PTO) heb gard.

Beth am ddysgu trwy brofiad?

Nid yw rheoleiddio iechyd a diogelwch yn atal dysgu trwy brofiad. Gellir gwneud hyn mewn modd wedi ei chynllunio gyda goruchwyliaeth uniongyrchol. Does dim byd o'i le gyda gadael i blentyn eich gwyllo'n gweithio cyn belled:

- nad yw'r dasg ei hun yn gynhenid beryglus;
- nad yw'r sawl sy'n cyflawni'r dasg hefyd yn goruchwyllo'r plentyn; ac
- y cedwir y plentyn mewn man diogel.

Pan fydd plant yn cael eu gadael i adlonni eu hunain, darparwch ardal ddiogel neu ardd ble gallant chwarae. Gweithle yw buarth nid cae chwarae.

Cerbydau a pheiriannau

Mae'r rhain yn cynrychioli'r risg mwyaf i blant ac yn debygol o fod y meysydd o fywyd fferm sydd fwyaf deniadol i blant hŷn. Mae'r canlynol yn risgiau ble ceir dyletswyddau cyfreithiol penodol.

Gwaharddiad ar yrru cerbydau a pheiriannau

Mae'n anghyfreithlon i ganiatáu i blentyn dan 13 fynd ar neu yrru peiriannau amaethyddol a yrrir gan unigolyn (megis tractorau) a pheiriannau fferm penodedig eraill wrth eu defnyddio i gyflawni gwaith amaethyddol neu wrth fynd o safle gwaith o'r fath.

Gwaharddiad ar blant yn teithio ar beiriannau, cerbydau neu offer

Mae'n anghyfreithlon i ganiatáu u blentyn dan 13 oed gael ei gludo ar dractor, peiriant amaethyddol a yrrir gan unigolyn, neu beiriant neu offeryn i'w osod ar, ei dynnu neu ei wthio gan dractor gan gerbyd arall, yn cynnwys peiriant neu offeryn amaethyddol yn cael ei dynnu gan anifail, fel arfer ceffyl.

Ni fydd plant yn ddiogel ddim ond am eu bod mewn cab - gallant ac maent yn syrthio o gabiau trwy ddrysau sy'n agor yn ddamweiniol, ffenestri cefn, neu yn ystod argyfyngau. Pan fyddant yn mynd allan o'r cab, mae perygl y byddant yn cael eu taro gan y peiriant wrth iddo symud i ffwrdd. Gall plant hefyd gyflwyno risg i weithredwyr pan fyddant yn gadael y lleoliad gyrru (e.e. i agor giât) trwy weithio taclau rheoli megis brêc parcio, liferi hydrolog ac ati, ac fe allant dynnu sylw'r gweithredwr os bydd argyfwng.

Syrthiodd merch ifanc o gab tractor wrth iddo yrru ar y ffordd. Aeth y tractor dros lwmp yn y ffordd, a achosodd iddi gollu ei balans, taro handlen y drws a syrthio trwy'r drws agored. Roedd angen 30 o bwythi i'w phen, torrodd ei phelfis, cael twll yn ei phledren ac roedd wedi ei pharlusu dros dro.

Roedd bachgen 8 oed yn cael ei gario yng nhab tractor ei dad ar hyd trac fferm. Roedd adran uchaf drws y cab ei wedi cau'n ddiogel, ond roedd y glicied ar gyfer y darn isaf ar goll. Roedd y bachgen yn sefyll yn y troedle ochr agosaf pan agorodd y drws yn annisgwyl ac fe syrthiodd dan yr olwyn gefn.

Roedd bachgen wyth oed a'i ddau frawd yn deithwyr mewn tractor yr oedd eu tad yn gyrru. Roedd y tractor yn tynnu rholer wedi ei lwytho â dŵr. Syrthiodd y bachgen o'r tractor a derbyn anafiadau angheuol i'w ben pan aeth y rholer drosto.

Ystyrir fod cerbydau pob tir (ATV neu feiciau cwad) yn beiriannau amaethyddol a yrrir gan unigolion pan fyddant yn cael eu defnyddio mewn gwaith amaethyddol.

Felly mae'n anghyfreithlon iddynt gael eu gyrru ar gyfer gwaith gan blant dan 13 oed. Mae hefyd yn anghyfreithlon i gario plentyn fel teithiwr. Edrychwch ar yr adran 'cerbydau pob tir' ymhellach yn y daflen hon a dalen wybodaeth AIS33 yr HSE am ragor o wybodaeth (gweler 'Cael gwybod mwy').



Roedd bachgen 12 oed yn gyrru cerbyd pob tir (ATV). Fe wyrodd i osgoi ffos ac fe drodd yr ATV drosodd. Syrthiodd oddi arno, a chael ei ddal dan y cerbyd a boddi yn y ffos. Canfuwyd yn hwyrach fod nam ar y breciau.

Roedd bachgen 5 oed yn eistedd rhwng coesau ei dad ar ATV. Wrth deithio i fyny allt serth, tarodd yr ATV dwll cwningen a chafodd y tad a'r bachgen eu taflu o'r cerbyd. Nid oeddynt yn gwisgo dim i amddiffyn eu pennau. Roedd y tad angen pwythi i anaf pen. Roedd penglog y plentyn wedi torri.

Reidio ar drelars

Gall plant dan 13 oed reidio ar drelar yn gyfreithlon, neu ar lwyth sy'n cael ei gludo gan drelar, os oes dull digonol, megis amddiffyniad ymyl, i'w hatal rhag syrthio oddi arno. Dylech fabwysiadu'r un safonau amddiffyniad os ydych chi'n cario plant hŷn.

Byddai amddiffyniad ymyl addas yn cynnwys byrddau pen, byrddau cynffon ac ymylon solet, o leiaf 920mm o uchder, neu gledrau gard. Os defnyddir cledrau gard, dylent:

- fod rhwng 920mm a 1070mm o uchder;
- gael cledr ganolog rhwng 460mm a 535mm o uchder; a
- gael bwrdd bawd troed o leiaf 75mm o uchder.

Gall y cledrau gard fod yn symudol neu gael adrannau i agor ar gyfer mynediad, ond dylid cau'r rhain pan fydd y trelar yn symud, a dylid rhoi'r un radd o amddiffyniad iddynt a gweddill y cledrau gard. Ystyriwch lenwi rhwng y cledrau pan fydd y trelar yn cael ei ddefnyddio ar gyfer plant meithrin yn teithio gyda gweithwyr achlysurol neu blant ysgol ar daith.

Dim ond os ydych chi a'r gyrrwr yn hyderus y bydd y plentyn yn ufuddhau i gyfarwyddiadau i fod ar eu heistedd y dylid cludo plant heb oruchwyliaeth. Os oes

disgwyl i blant deithio ar lwyth, yna rhaid i unrhyw ochrau fod yn uwch na'r llwyth. I fod yn effeithiol, dylent ddarparu'r un safon o amddiffyniad â'r mesuriadau a roddir uchod.

Peidiwch byth â gadael i blentyn:

- reidio ar far tynnu tractor neu drelar;
- reidio ar drelar pan fydd deunyddiau'n cael eu llwytho arno a'r trelar yn symud.

Mae'r HSE yn cynhyrchu dalen wybodaeth am ddim (AIS36) ar gludo teithwyr ar drelars fferm (gweler 'Cael gwybod mwy').

Roedd nifer o blant yn cael eu cludo ar drelar byrnau. Roedd un yn eistedd gyda'i goesau yn crogi dros ymyl y trelar, ac wrth iddo fynd trwy giât, cafodd un goes ei gwasgu rhwng postyn y giât a'r trelar.

Roedd bachgen ysgol yn teithio ar far tynnu cyfuniad tractor/trelar pan syrthiodd i ffwrdd ac aeth olwyn ochr agosaf y trelar drosto. Bu farw o anafiadau mewnol.

Bydd yr HSE yn gorfodi'r gyfraith o ran diogelwch plant yn drylwyr ac yn ystyried achosion yn erbyn unrhyw un a ganfyddir i fod yn gweithredu'n groes. Nid yw'r gyfraith yn eithrio rhieni a pherthnasau eraill.

Cerbydau sy'n symud

Mae cymysgu cerbydau a phobl yn risg ar bob adeg oherwydd manau dall. Mae plant yn risg arbennig gan ei bod yn bosibl na fyddwch yn eu gweld o gwbl oni bai eu bod yn bell o'r cerbyd, e.e. o dele-drafodydd (telehandler) efallai na fyddwch yn gallu gweld plentyn bychan os yw'r trawst yn ei safle cludo arferol. Mae nifer o blant yn rhy fach i'w gweld o gab tractor os ydynt yn sefyll yn agos at y teiars.

Cofiwch feddwl am fannau dall atodol allai gael eu creu wrth i chi ychwanegu offer. A fyddai drych mewn lleoliad penodol yn eich helpu i weld rownd y gornel? Allwch chi gyfyngu ar fynediad i gerddwyr? Ar adegau prysur, a fyddai system un ffordd glir yn helpu?

Rheoli'r risgiau:

- Defnyddiwch y weithdrefn **Stopio Diogel** pan fydd cerbyd yn cael ei adael, h.y. rhowch y brêc parcio ymlaen, gostwng offer a osodwyd i'r ddaear, stopio'r injan, tynnu'r allwedd cychwyn a chloi neu ddiogelu'r tractor.
- Lleihau symudiadau'r cerbyd, ystyried cyfyngiadau cyflymder ac osgoi mynd am yn ôl yn ddall trwy ddefnyddio arolygwr banc neu dywysydd cymwys.
- Atgoffa gyrwyr i sicrhau y gallant stopio o fewn y pellter a welir i fod yn glir – yn arbennig o bwysig o amgylch corneli neu wrth ddod at rwystrau.
- Codi arwyddion yn atgoffa gyrwyr y gall fod yna blant yn agos ac y dylent yrru'n ofalus, a gwirio nad oes plant yn yr ardal cyn mynd i'r cerbyd.

Cafodd bachgen 5 oed ei ladd pan gafodd ei wasgu dan olwynion cerbyd oedd yn mynd yn ôl. Roedd yn chwarae gyda phlant eraill ar fuarth fferm, er ei fod wedi ei wahardd rhag bod yno. Ni welodd y gyrrwr y bachgen, er iddo fod yn ofalus a sylwgar ac iddo ddefnyddio'i ddrychau cefn yn briodol.

Cyswllt gyda pheirianwaith

Mae'n anghyfreithlon i ganiatáu i blentyn dan 13 oed weithredu'r rhan fwyaf o offer fferm. Gall plant rhwng 13 ac 16 ddefnyddio rhai peiriannau'n ddiogel, ond dim ond os ydynt wedi eu hyfforddi a goruchwylio yn briodol a'u bod yn gymwys. Gweler 'Plant rhwng 13 ac 16' yn hwyrach yn y daflen hon am ragor o wybodaeth.

Mae plant wedi eu denu i beiriannau ac yn aml nid ydynt yn gwerthfawrogi'r peryglon. Mae peiriannau amaethyddol a ddefnyddir heb unrhyw yn bresennol yn risg arbennig felly. Cadwch blant heb gwmni i ffwrdd o weithgareddau fferm, a sicrhewch:

- fod yr holl beiriannau wedi eu diogelu'n briodol;
- nad ydych yn gadael i blant eich helpu – gallai ennyd fer o beidio talu sylw arwain at drasiedi;
- nad ydych yn gadael eich plentyn yn, ar, neu ger peiriannau, yn cynnwys tractorau ac ati.

Cafodd bachgen 9 oed ei dynnu gerfydd ei draed i mewn i gynaeafwr porthiant, gan gollu coes. Roedd wedi ei adael heb oruchwyliaeth yn agos ar y peiriant llonydd, oedd yn dal i redeg.

Syrthio

Mae plant yn chwilfrydig ac anturus o ran anian, sy'n aml yn arwain iddynt ddringo i lefelau uwch adeiladau a strwythurau uchel megis seilos a staciau byrnau, neu i ddringo ysgolion dim ond i fod yn ddewr. Maent hefyd yn mynd i ardaloedd gwaharddedig pan fydd teganau fel peli'n cael eu colli. Gallant gael eu hanafu neu ladd, e.e. pan fydd y strwythur yn disgyn, pan nad yw mor hawdd iddynt ddringo i lawr ag yr oedd dringo i fyny, neu pan fyddant yn dringo trwy neu ar hyd cledrau gard sydd wedi eu darparu i oedolion. Gallai fod yn hawdd iawn dringo ar ben to sydd fel arfer yn anhygyrch pan, er enghraifft, fydd y clamp silwair cyfagos yn llawn.

Roedd bachgen 8 oed yn chwarae gyda mab ffermwr ar y fferm. Am ryw reswm, fe ddringont i ben to'r sied lloeau, ac fe syrthiodd y bachgen 3.5m trwy olau to plastig. Bu farw wedi torri ei benglog.

Meddylwch sut allwch chi stopio plant rhag dringo ar y strwythurau hyn. Ystyriwch:

- wneud ysgolion sefydlog yn anhygyrch trwy sgrinio'r grisiau (e.e. trwy roi pren sgaffald ar eu traws);
- symud ysgolion symudol (yn cynnwys unrhyw adran is symudol ar ysgol sefydlog) fel na ellir eu defnyddio i gyrraedd manau peryglus;
- storio ysgolion symudol fel eu bod wedi eu cadwyno/diogelu i atal defnydd heb awdurdod;
- stacio byrnau, gwllâu gwellt ac ati fel nad yw plant yn gallu dringo i fyny i strwythurau na fyddent yn hygyrch fel arall;
- cloi neu ddiogelu adeiladau gyda pheiriannau uchel neu offer ynddynt.

Os gellir dringo stac byrnau, y risgiau allweddol i'w hystyried yw:

- syrthio oddi ar a thrwy'r stac byrnau;
- y gellir defnyddio'r stac i gael mynediad i ardaloedd eraill;
- gwasgu wrth i fynau syrthio;
- defnyddio byrnau bach i wneud cuddfan a allai ddisgyn;
- tân – ystyriwch ffynonellau tanio.

Roedd merch 8 oed yn chwarae ar stac byrnau'r fferm, ac wrth geisio dringo i lawr fe syrthiodd tua 3.5m ar chwalwr gwair islaw. Bu farw o anafiadau pen difrifol.

Gwrthrychau'n syrthio

Pan fyddwch yn cyflawni'ch asesiad risg, chwiliwch am bethau ar y fferm allai syrthio ar ben plant. Cofiwch y gall gwrthrychau na fyddant yn achosi niwed difrifol i oedolion ladd neu anafu plentyn.

Dilynwch y camau canlynol:

- Diogelwch, neu rhowch i orwedd, eitemau o beiriannau neu offer trwm a allai syrthio, fel na allant syrthio ar ben ac anafu plant. Talwch sylw arbennig i giatau, ysgolion ac olwynion.
- Ble bydd stac o fymau, gwllâu gwellt neu bren yn cael eu storio, gofawch na all plant ddringo arnynt. Os yw ffensio yn anymarferol, e.e. ar gyfer staciau pren, codwch y stac, neu ddefnyddio pyst atal, fel na fydd yn syrthio.

Cafodd bachgen 4 oed ei ladd pan syrthiodd olwyn ddeuol tractor yn pwysu 460kg arno. Roedd yr olwyn yn pwysu heb ei diogelu yn erbyn wal ysgubor.

Dringodd mab 6 oed ffermwr ar giât oedd wedi ei thynnu oddi ar ei cholfachau. Fe orbwysodd a disgyn ar ei ben, gan dorri ei benglog ai ladd. Roedd y ffermwr yn gwybod nad oedd y giât wedi ei diogelu a bod y bachgen yn chwarae yn agos ati.

Boddi a mygu

Mae nifer o farwolaethau plant ar ffermydd yn digwydd oherwydd boddi mewn dŵr, slyri neu raen pan fydd plant yn mynd i fannau megis:

- storffeydd graen, seilos, hoprau neu bydewau;
- storffeydd slyri neu danciau elifiant;
- cronffeydd dyfrio;
- dipiau defaid.

Yn rhan o'ch asesiad risg, ceisiwch osod eich hun yn sefyllfa'r plentyn. Beth fyddai'n eu denu i ardal? A yw'n debygol o fod yn rhan o gêm? A oes rheswm arall pam y byddai'n mynd yno? Peidiwch:

- ag anghofio gallu plant i fynd i fannau a ymddengys i fod yn gwbl anhygyrch;
- ag anghofio eu chwilfrydedd;
- a thybio nad yw plentyn wedi ei ddenu i fynd i mewn i rywle dim ond am nad ydych chi eisiau iddo wneud.

Roedd bachgen 8 oed yn chwarae ar y graen ym mhwill mewnllif storfa graen pan gafodd ei dynnu i lawr i mewn iddo a mygu. Nid oedd grid wedi ei osod ar y pwll.

Roed merch 7 oed yn chwarae ei hun yn y buarth ger pwll graen llawn heb ei orchuddio oedd yn cael ei wagio gan ebill. Syrthiodd y plentyn i mewn i'r pwll a boddi yn y graen. Roedd yn farw erbyn dod o hyd iddi.



Roedd bachgen 1 oed yn chwarae gyda'i frodyr mewn ardal wedi ei ffensio. Gadawodd yr ardal ddiogel, mynd i'r buarth a thrwy ddrws agored i mewn i sied. Syrthiodd i mewn i faddon dip defaid, oedd wedi ei ddefnyddio yn gynharach y bore hwnnw. Roedd un o'r gorchuddion heb eu rhoi yn ôl ac fe foddodd y bachgen.

Mygodd bachgen 9 oed mewn glaswellt mewn clamp silwair ar fferm ei dad. Roedd yn chwarae ger y clamp ac yn helpu agor tinbren y trelar. Er i'w dad ddweud wrtho symud, daliodd ati i chwarae yn yr ardal a chafodd ei gladdu gan y glaswellt.

I atal digwyddiadau tebyg, rhaid i chi stopio plant rhag mynd i ardaloedd peryglus. Ystyriwch y rhagofalon canlynol:

- Ffensiwch bob lagŵn, cronfa ac ati yn ddiogel gyda ffens i atal plant at uchder o 1.3m. Peidiwch ag anghofio giatiau neu bwyntiau mynediad eraill.
- Gorchuddiwch bob pwll yn ddiogel (e.e. pyllau graen a dipiau defaid) a thyllau archwilio i atal plant rhag syrthio i mewn iddynt. Mae gridiau gydag uchafswm gofod o 65mm yn addas.
- Cadwch fynedfeydd i adeiladau sy'n cynnwys seilos, biniau graen ac ati dan glo, heblaw pan fydd gwaith yn digwydd.

Anaf a salwch o anifeiliaid

Does dim rhaid i anifeiliaid fod yn ymosodol i achosi niwed difrifol i, neu hyd yn oed ladd, plentyn. Mae peryglon gwartheg a cheffylau aeddfed yn amlwg, ond mae defaid a moch wedi achosi anaf difrifol, yn aml wrth iddynt fod yn chwareus.

Y ffordd orau o leihau'r risg o anifeiliaid yw cadw plant oddi wrthynt, neu ganiatáu cyswllt **dim ond pan fydd oedolyn yn eu goruchwyllo**. Os ydych yn mynd â phlant ifanc i weld anifeiliaid yn y maes, sicrhewch eu bod yn agos atoch ac nad ydynt yn crwydro i ffwrdd ymysg yr anifeiliaid.

Er bod yna resymau addysgol a datblygiadol da dros annog plant i gael cyswllt gydag anifeiliaid, peidiwch byth â chaniatáu i blant, hyd yn oed gydag oedolyn, fynd i mewn i gorlan neu amgaead rhydd yn cynnwys:

- unrhyw darw, baidd, stalwyn, hwrdd neu hydd;
- gwartheg, hychod, cesig, ewigod neu famogiaid sydd gyda'u hanifail newydd-anedig;
- unrhyw anifail arall a wyddoch i fod neu sy'n debygol o fod yn ymosodol.

Gall plant fynd i mewn o gorlannau gydag anifeiliaid benywaidd dof heb eu hifanc cyn belled â'u bod wedi eu goruchwyllo'n uniongyrchol gan oedolyn. Os ydych chi eisiau dangos anifeiliaid ifanc i blant, sicrhewch fod yr anifail a'r plentyn y tu allan i'r gorlan, neu ddiogelwch neu symud y fam o'r gorlan.

Cadwch blant allan o barlyrau godro oni bai eu bod wedi eu goruchwyllo'n uniongyrchol.

Roedd mab 5 oed ffermwr yn helpu dod â buwch a llo o'r caeau i'r iard. Cafodd ei daro i'r ddaear gan y fuwch, a safodd ar ei law gan achosi iddo gollu rhan o'i fawd.

Gall anifeiliaid hefyd fod yn cario afiechydon neu organebau y gellir eu pasio i fodau dynol ac achosi salwch (swnesau). Mae'r rhain yn cynnwys E. coli 0157, all achosi dolur rhydd difrifol neu waeth, cryptosporidiwm sydd hefyd yn gallu achosi dolur rhydd, orf, sy'n achosi anaf i'r croen, twymyn Q, sy'n achosi symptomau tebyg i'r ffliw ac eraill. Mae ffermydd a storfeydd graen yn aml yn denu fermin. Gall llygod mawr achosi salwch megis leptosbriosis.

I gyfyngu'r risg y bydd plant wedi eu heffeithio gan y clefydau hyn, sicrhewch nad ydynt yn:

- cael cyswllt ag unrhyw anifail sy'n amlwg yn dioddef o salwch neu haint megis ysgothi, orf neu darwden;
- rhoi bysedd heb eu golchi yn eu cegau;
- yn bwyta neu yfed yn ystod neu wedi cyswllt gydag anifeiliaid, baw, neu ardaloedd ble mae anifeiliaid wedi baeddu nes eu bod wedi golchi eu dwylo yn drylwyr gyda sebon a dŵr croyw, yn defnyddio tywel papur neu roler glân i'w sychu.

Cafodd 13 o blant driniaeth mewn ysbyty wedi ymweliad fferm agored yn trin da byw oedd yn cario'r bacteria E. coli 0157. Roeddynt wedi sugno eu bysedd a bwyta eu pecynnau bwyd heb olchi eu dwylo.

Sylweddau peryglus

Mae sylweddau peryglus mewn amaeth yn amrywio o blaeiddiaid a moddion milfeddygol, yn cynnwys dipiau defaid, i gemegau laeth a datseimyddion gweithdy. Dylid storio'r holl sylweddau hyn dan glo yn ddiogel ar bob adeg, oni bai eu bod yn cael eu defnyddio dan oruchwyliaeth.

Peidiwch byth a:

- gadael storfa plaeiddiad yn agored neu heb ei chloi heb neb yn ei gwarchod;
- gadael plaeiddiaid crynodedig mewn unrhyw gynhwysydd ac eithrio'r gwreiddiol;
- rhoi plaeiddiad gwanhaedig mewn unrhyw gynhwysydd y gellid ei gamddehongli i fod yn cynnwys unrhyw hylif arall, megis diod feddal;
- gadael unrhyw ddip defaid, yn cynnwys golch dip, heb ei orchuddio wedi ei ddefnyddio – os bydd plentyn yn syrthio i mewn, yn ogystal â'r risg o foddi, mae yna risg o lyncu'r golch dip neu y bydd yn treiddio'r croen;
- gadael i blant helpu trin anifail yn defnyddio chwistrellau hypodermig.

Yn ogystal â rhwystrau dynol, mae yna sylweddau naturiol peryglus ar y fferm, megis micro-organeddau (bacteria ac ati) sy'n bresennol mewn gwrtaith, slyri, llwch a phridd. Sicrhewch fod plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr pob tro cyn bwyta neu yfed. Peidiwch â gadael i blant ifanc chwarae ble maent yn debygol o gyffwrdd â slyri ac ati os nad ydynt yn deall yr angen i gadw eu bysedd allan o'u cegau.

Aethpwyd â merch 7 oed i'r ysbyty wedi iddi yfed plaeiddiad gwanhaedig o botel diod feddal heb ei labelu. Fe wellodd wedi cael triniaeth.

Aethpwyd a bachgen ifanc i'r ysbyty wedi chwarae mewn hen sied storio ble roedd dip defaid wedi arllwys ar y silffoedd, llawr ac eitemau a storiwyd yno. Nid oedd drws ar y sied.



Tân

Yn aml bydd plant yn creu cuddfannau yn neu ar staciau a gwellt neu wair, ac weithiau'n mynd â matsis neu ganhwyllau gyda nhw. Cafwyd rhai achosion o farwolaethau lluosog o ganlyniad i dân mewn stac o fynau.

Chwiliwch am dystiolaeth o blant yn chwarae neu dyllu dan staciau. Os byddwch yn gweld arwyddion o hyn, ffensiwch yr ardal, neu gysylltu â'r rhieni a gofyn iddynt gadw eu plant i ffwrdd i'w atal rhag digwydd eto.

Efallai y bydd perygl i blant os gofynnir iddynt neu y caniateir iddynt adeiladu coelcerth ar y fferm. Efallai na fyddant yn sylweddoli na ddylid defnyddio hylifau fflamadwy i danio neu adfywio tân ac efallai y byddant yn mynd yn rhy agos neu'n cael eu dal yn ddiarwybod gan y tân yn fflamio'n sydyn. Peidiwch â gadael i blant helpu gyda choelcerthi, a sicrhewch eu bod wedi eu diffodd yn llwyr cyn eu gadael.

Canfuwyd bachgen 14 oed yn farw mewn ysgubor gwellt. Roedd wedi bod yn chwarae gyda chanhwyllau yn y byrnau.

Roedd merch 13 oed yn un o grŵp o laslanciau yn tresmasu oedd yn chwarae mewn sied wair oedd yn cael ei ddefnyddio i storio byrnau gwellt. Doedd y ffermwr ddim yn gwybod eu bod yno. Ymddengys i'r ferch gollu rhywbeth a defnyddio kannwyll i chwilio amdano. Cydiodd y tân yn y gwellt ac ni allai ddianc.

Ymwelwyr i'r fferm

Mae mwy a mwy o ffermydd yn arallgyfeirio ac yn agored i ymwelwyr. Dylai ffermydd sy'n agor yn rheolaidd ystyried trefniadau parhaol a chwrs achrediad megis y Cynllun Achredu Ymweliadau Addysgol Cefn Gwlad (CEVAS) (gweler www.face-online.org.uk/cevas).

Dylai teithiau addysgol megis ymweliadau ysgol gael eu trefniadau iechyd a diogelwch eu hunain. Rhowch wybod i'r trefnwyr am eich rheolau iechyd a diogelwch fferm eich hun ac unrhyw ardaloedd gwaharddedig. Bydd cydweithio rhwng yr ymwelwyr a'r ffermwr sy'n eu lletya yn sicrhau ymweliad llwyddiannus. Mae arweiniad ar gael i athrawon am reoli ymweliadau fferm (gweler 'Cael gwybod mwy').

Dylai ffermydd sy'n agor yn achlysurol yn unig (megis ar gyfer Dydd Sul Ffermydd Agored) ddefnyddio'r cyngor a roddir yn y daflen hon fel isafswm, a rhoi gwybod i ymwelwyr fod yn rhaid iddynt ddilyn eich cyfarwyddiadau diogelwch trwy gydol yr ymweliad.

Os ydych chi wedi asesu ardaloedd o'ch fferm i fod yn ddiogel i blant chwarae ynddynt, efallai y byddant yn ddiogel ar gyfer ymwelwyr. Ond cofiwch fod ymwelwyr a pherthnasau yn aml yn gyffrous am weld pethau newydd ac y gallant fentro i fannau sydd fel arfer heb eu harchwilio gan eich plant eich hun – felly gwiriwch fod eich asesiad yn ystyried hyn.

Pan fydd UNRHYW blentyn yn cael dod i mewn i weithle'r fferm, bydd angen goruchwyliaeth uniongyrchol arnynt.

'Hawl i grwydro'

Os oes unrhyw hawl tramwy yn pasio trwy'r buarth, bydd angen i chi nodi llwybr mynediad diogel clir neu roi gwybod i bobl o'r risgiau mewn rhyw fodd arall.

Nid yw hawliau tramwy a materion mynediad cyhoeddus cyffredinol wedi eu trafod yn y daflen hon, ond mae'r asiantaethau cefn gwlad yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn delio â hyn. Mae yna gyfeiriad gwefan cyswllt yn 'Cael gwybod mwy'.

Tresmasu

Mae'r gyfraith o ran tresmasu yn cael ei gorfodi gan yr heddlu, nid yr HSE. Efallai yr hoffech siarad â'ch heddwys cymunedol i gael cyngor. Os ydych chi'n gwybod fod plant a phobl ifanc yn tresmasu, dylech ystyried sut i leihau'r risgiau a sut y gallwch atal mynediad at eich gweithle:

- Darparu ffensys, giatau ac arwyddion rhybudd addas, cadarn ac wedi eu cynnal yn dda i atal mynediad.
- Chwiliwch am blant yn tresmasu a dweud wrthynt adael. Os nad ydynt yn gadael, stopiwch weithio a ffonio eu rhieni neu'r heddlu.
- Adroddwch droseddwyd cyson i'w rhieni (os yn hysbys) a'r heddlu.

Roedd dau o fechgyn yn eu harddegau yn arfer cwrdd yn rheolaidd mewn ysgubor: bu farw'r ddau mewn tân. Roedd un o'r bechgyn yn byw'n lleol ac wedi tresmasu yno. Roedd ymchwiliad yr HSE yn dangos y cymerwyd camau rhesymol i geisio eu cadw allan ac ni weithredwyd yn erbyn y ffermwr.

Plant rhwng 13 ac 16

Mae'r Rheoliadau Atal Damweiniau i Blant 1999 yn gwahardd unrhyw blentyn dan 13 oed rhag gyrru tractor neu gerbyd amaethyddol arall.

Mae pobl ifanc dros 13 oed yn cael gyrru tractor neu gerbyd amaethyddol arall yn y gwaith ond cyn gwneud hynny dylai fynychu cwrs hyfforddiant gyda darparwr hyfforddiant cymwys. P'un a ydynt yn gweithio neu beidio, ni ddylid gadael i berson ifanc yrru tractor neu beiriant a yrrir gan unigolyn oni bai:

- fod ganddo'r cyrhaeddiad a nerth i weithredu'r rheolyddion yn gyfforddus wrth eistedd yn y sedd yrru;
- eu bod wedi cael cyfarwyddyd ar weithredu'r tractor yn ddiogel ac ati wrth yrru ac yn deall yn llwyr beth mae'r holl reolyddion yn wneud, a beth allai ddigwydd os na'i defnyddir yn gywir;
- eu bod yn cael eu goruchwyllo'n ofalus gan oedolyn cyfrifol;
- nad oes unrhyw blentyn neu berson ifanc arall yn y tractor ac ati, ac nad oes unrhyw un ar unrhyw drelar neu offer arall a atodwyd, heblaw i oruchwyllo neu gyfarwyddo ac nad oes unrhyw aelod o'r cyhoedd, er enghraifft y rhai sy'n bresennol ar gyfer diwrnod agored fferm, yn yr ardal gyfagos;
- mae'r rheolyddion ar gyfer y PTO, dyfeisiadau hydrolog a stopio'r injan wedi eu marcio'n glir i ddangos ar gyfer beth y'i defnyddir, ac mae'r tractor wedi ei gynnal fel ei fod yn ddiogel iddynt ei weithredu;
- nad oes unrhyw lethrau serth, cloddfeydd, banciau afon, ymylau llynnoedd neu byllau, ffosydd dwfn neu debyg yn yr ardal gyrru.

Gall plant sydd wedi derbyn hyfforddiant, cyfarwyddyd a goruchwyliaeth briodol rhwng 13 ac 16 ddefnyddio rhai peiriannau amaethyddol yn ddiogel ar gyfer tasgau syml. Gallai peiriannau a gweithredoedd allai fod yn addas gynnwys:

- defnyddio tractor pŵer isel gyda rholer tynnu neu ogedi ar laswellt lefel heb unrhyw ffosydd;
- gweithredu slyri modur neu grafwr gwrtaith wedi ei reoli ar droed; a gweithio ar lwyfan graddio archwilio cynaeafwr tatws (nid yn y lleoliad gyrru).

Fodd bynnag, mae yna ddedholiad o beiriannau na ddylid eu caniatáu i:

- yrru;
- gweithredu neu helpu i weithredu;
- cynnal neu lanhau (oni bai fod y peiriant a'i chydannau yn llonydd, wedi ei ynysu a'r allweddi wedi eu tynnu);

yn cynnwys:

- cynaeafwyr a dynnir neu a yrrir a pheiriannau prosesu (heblaw peiriannau a gynlluniwyd i'w gweithredu gan bobl yn ogystal â'r gyrrwr, ble mae'r plentyn 23 i 16 oed yn gweithredu'r llwyfan a dan oruchwyliaeth oedolyn);
- trelars a pheiriannau a dynnir gyda mecanwaith cludo, llwytho neu daenu wedi eu hymgorffori;
- trinwyr wedi pweru o unrhyw fath neu beiriannau a yrrir gan bŵer gyda mecanweithiau torri, rhannu, malu neu wasgu (yn cynnwys llifiau cadwyn);
- dodwyr cemegol o unrhyw fath, yn cynnwys offer llaw;
- peiriannau ffosydd a draenio;
- trinwyr deunyddiau yn cynnwys llwythwyr bustych sgidio, tryciau codi a cherbydau gosod traciau;
- peiriannau graen neu gludo slyri wedi pweru;
- offer paratoi porthiant wedi pweru.

Collodd gyrrwr tractor 14 oed reolaeth o'r tractor wrth yrru dros geudyllau. Bu mewn gwrthdaro â cherbyd arall a throi drosodd, gan dorri ei goes ac achosi anafiadau i'w ben.

Roedd bachgen 14 oed yn gyrru tractor ac roedd cyfaill 16 oed gydag ef. Dringodd y cyfaill allan ac aeth triniwr wedi ei bweru dros ei goes. Roedd yn rhaid torri ei goes i ffwrdd.

Cerbydau pob tir (ATVs)

Pan fydd plant a phobl ifanc yn gweithredu ATVs ar gyfer gwaith, dilynwch y rheolau hyn:

- Gadewch i blant dros 13 yrru ATVs o faint a phŵer priodol yn unig, wedi derbyn hyfforddiant priodol ar ATV pŵer isel.
- **Gwiriwch a chadw at argymhellion isafswm oed y gwneuthurwr ar gyfer eich ATV - mae gan nifer isafswm oed o 16.**
- Gwiriwch fod cymhareb pwysau'r plentyn i'r ATV yn briodol, gan fod trosglwyddiad pwysau yn allweddol i'w trin yn ddiogel.
- Cyfeiriwch at lawlyfr y perchennog a labeli rhybudd ar y peiriant.
- Peidiwch byth â chario teithwyr sy'n blant. Mae'n anghyfreithlon.
- Nid yw ATVs eistedd ar led wedi eu cynllunio i gario teithwyr o unrhyw oed a bydd hyn yn lleihau'ch gallu i reoli'r ATV.

Bydd asesiad risg yn dynodi'r gofyniad i wisgo helmed briodol wrth weithredu ATV yn y gwaith. Trafodir dyletswyddau a chyfrifoldebau ehangach ar gyfer gweithredu ATVs yn ddiogel yn nalen wybodaeth yr HSE AIS33 (gweler 'Cael gwybod mwy').

Cyflogi plant a phobl ifanc

Mae'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 yn gofyn i chi asesu'r risgiau i iechyd a diogelwch pobl ifanc yn y gwaith ac i gymryd camau i'w diogelu, gan ystyried:

- diffyg profiad gweithwyr ifanc;
- eu hymwybyddiaeth gyfyngedig o risgiau; ac
- eu hanaeddfedrwydd, yn gorfforol a meddyliol.

Sicrhewch eu bod yn derbyn cyfarwyddyd, goruchwyliaeth a hyfforddiant priodol, gan gofio eu galluoedd.

Mae cyfyngiadau ar ba waith y gall pobl ifanc ei wneud. Ble mae risgiau o hyd wedi sefydlu camau rheoli, ni ddylid amlygu'r gweithiwr ifanc i unrhyw risg atodol ac ni ddylid dyrannu'r gwaith hwn iddo.

Cyn cyflogi plentyn o oedran ysgol gorfodol (fel arfer dan 16 oed) i gyflawni unrhyw waith, rhaid i'r cyflogwr roi gwybod i riant y plentyn am gasgliadau'r asesiad risg a sut fydd unrhyw risgiau a nodir yn cael eu rheoli. Mae hyn yn ogystal ag unrhyw ofnyion trwyddedu gan y swyddog addysg lleol.

Mae awdurdodau trwyddedu yn pennu'r math o waith ysgafn y byddant yn caniatáu i'r plentyn wneud, ac yn dynodi hyd yr amser gwaith a ganiateir. Mae rhai awdurdodau lleol yn eithrio gweithredu tractor o'u trwyddedau.

Roedd bachgen 15 oed ar gynllun profiad gwaith yn helpu ffermwr i lanhau biniau graen. Roedd y ffermwr hefyd yn goruchwyllo llwytho dwy lori yn yr iard. Wrth lwytho'r lori gyntaf, clywodd y ffermwr a gyrrwr y lori'r bachgen yn gweiddi. Ruthront i'r storfa graen a'i ganfod wedi ei gladdu'n rhannol mewn bin graen, ond nid oedd yn bosibl iddynt ei achub.

Roed bachgen 15 oed dibrofiad yn gyrru tractor gyda wagen silwair lawn wedi ei gosod arni gyda'r nod, heb olau. Ar lethr, fe aeth y tractor i bant yn y ddaear a throi drosodd. Torrodd y sedd o'i fownt, cafodd y bachgen ei daflu o gwmpas y cab a bu farw o anafiadau mewnol ac i'r cefn. Nid oedd gan y tractor wregysau diogelwch.

Rhaid i chi ymgynghori â swyddog lles cyflogaeth/addysg plant eich awdurdod lleol cyn caniatáu i blant o oed ysgol gorfodol wneud gwaith ysgafn ar eich fferm. Mae is-ddeddfau awdurdodau lleol yn gofyn am drwyddedu gweithwyr sy'n blant. Nid yw'r gyfraith hon wedi ei gofodi gan yr HSE.


Pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed

Nid yw'r ffaith fod pobl ifanc wedi gadael yr ysgol yn golygu o reidrwydd y bydd ganddynt y gallu a'r aeddfedrwydd i gyflawni gwaith yn yr un modd ag y byddai oedolyn profiadol.

Cofiwch, hyd yn oed os ydych wedi asesu fod tasg yn addas i berson ifanc ei gwneud, byddwch yn fal angen sicrhau ei fod wedi derbyn yr hyfforddiant ac offer priodol ac wedi ei oruchwyllo'n ddigonol, yn arbennig wrth ddysgu sgiliau newydd. Sicrhewch ei fod wedi ei oruchwyllo nes y bydd yn gymwys.

Roedd mab fferm 16 oed yn gweithio ar ei ben ei hun yn trwsio to bregus beudy. Syrthiodd trwy ffenestr do i'r llawr concrid islaw a bu farw o anafiadau pen.

Bu farw hyfforddai ciper 16 oed ar ei ben ei hun pan aeth o fwydo fasantod. Roedd yn dod i lawr llethr yn gyrru ATV gyda llwyth ar y rac blaen. Daethpwyd o hyd iddo gyda'r beic cwad wedi ei droi ar ei ben.



Efallai y bydd plant iau yn edmygu ac eisiau efelychu pobl ifanc yn y gwaith. Sicrhewch fod y bobl ifanc hyn yn y gwaith yn gwybod fod ganddynt yr awdurdod a chyfrifoldeb i anfon plant eraill (hyd yn oed blentyn eu cyflogwr) yn ôl i ofal oedolyn cyfrifol. Ni ddylid disgwyl iddynt wneud eu gwaith a goruchwylio plant iau ar yr un pryd.

Roedd cyflogai 17 oed yn helpu ffermwr i glirio cwteri to. Cyrhaeddodd mab 13 oed y ffermwr. Roedd eisiau mynd i weld beth oedd y person ifanc 17 oed yn ei wneud ac fe aeth ar draws y to bregus i ble roedd y bachgen hyn yn gweithio. Aeth ei droed trwy'r to ac fe syrthiodd i'r llawr concrid islaw a bu farw.

Cofiwch fod pob enghraifft yn y daflen hon wedi digwydd go iawn ac yn un o sawl digwyddiad. Gobeithiwn y bydd y cyngor hwn yn helpu cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel i fod yn ffermwyr y dyfodol.

Cael gwybod mwy

Preventing or controlling ill health from animal contact at visitor attractions
www.face-online.org.uk/codeofpractice

Carrying of passengers on farm trailers Agriculture Information Sheet AIS36(rev1)
HSE 2012 www.hse.gov.uk/pubns/ais36.htm

Farmwise: Your essential guide to health and safety in agriculture HSG270 (Second edition) HSE Books 2013 ISBN 978 0 7176 6579 2
www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg270.htm

Guidance on storing pesticides for farmers and other professional users Agriculture Information Sheet AIS16(rev1) HSE 2012 www.hse.gov.uk/pubns/ais16.htm

Preventing access to effluent storage and similar areas on farms Agriculture Information Sheet AIS9(rev1) HSE 1997 www.hse.gov.uk/pubns/ais9.pdf

Safe use of all-terrain vehicles (ATVs) in agriculture and forestry Agriculture Information Sheet AIS33(rev1) HSE 2013 www.hse.gov.uk/pubns/ais33.htm

Visit www.countrysideaccess.gov.uk for links to the Countryside Code and websites for the Countryside Council of Wales and the Outdoor Access Code for Scotland.

Rhagor o wybodaeth

Am wybodaeth ynglŷn ag iechyd a diogelwch, neu i adrodd ar anghysondebau neu wallau yn y canllaw hwn, ewch i www.hse.gov.uk. Gallwch weld canllaw'r HSE ar-lein ac archebu canllawiau am bris o'r wefan. Mae cyhoeddiadau am bris yr HSE hefyd ar gael o siopau llyfrau.

Cyhoeddir y canllaw hwn gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Nid yw'n orfodol i ddilyn y canllaw, oni bai y nodir hynny'n benodol, ac rydych yn rhydd i weithredu fel arall. Ond os byddwch yn dilyn y canllaw, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith. Mae arolygwyr iechyd a diogelwch yn ceisio sicrhau cydymffurfiad ar gyfraith a gallant gyfeirio at y canllaw hwn.

Gellir dod o hyd i'r daflen hon ar: www.hse.gov.uk/pubns/indg472.htm.

© *Hawlfraint y Goron* Os ydych yn dymuno aildddefnyddio'r wybodaeth hon, ewch i www.hse.gov.uk/copyright.htm am fanylion. Cyhoeddwyd gyntaf 06/13